PRIFYSGOL BANGOR

PWYLLGOR IECHYD A DIOGELWCH

| | |
|---|---|
| Cyfarfod: | 18 Gorffennaf 2016 |
| Presennol: | Yr Athro P Spencer (Cadeirydd), Miss S Barnes, Mr M Day, Mr A G Jones, Mr W Jones, Mrs M Lake, Dr J Latchford, Ms C Monks, Dr K Mundy, Dr L Murphy, Mr D Owen, Ms E Riches, Dr H Roberts, Mr D Williams, Mr G W Jones (Ysgrifennydd). |
| Ymddiheuriadau: | Mr D Fordham, Mrs T Hibbert, Dr C Gwenin, Mrs E Parry Williams, Mr A Jones, Dr |

diogelwch rhag tân ac archwilio'r adeilad hefyd. Mae'r holl gamau gweithredu a nodwyd yn eu hadroddiad wedi cael eu cyflawni neu wrthi'n cael sylw.

g. Mae'r Ysgol Cemeg wedi ystyried achos(ion) y digwyddiad hwn, ynghyd â gwybodaeth hanesyddol am ddigwyddiadau eraill yn yr Ysgol, ac mae wedi gwneud nifer o newidiadau a chynlluniau o bwys i godi ymwybyddiaeth o arferion da o ran iechyd a diogelwch, a thrwy hynny leihau'r tebygolrwydd o ddigwyddiad cyffelyb a lliniaru canlyniadau posibl unrhyw weithredu gwael.

491. ADOLYGU POLISI IECHYD A DIOGELWCH Y BRIFYSGOL (Cyfrifoldebau a Threfniadau)

Cadarnhawyd bod Cyngor y Brifysgol wedi cymeradwyo'r Datganiad Polisi Iechyd a Diogelwch newydd.

I gyd-fynd â'r Datganiad Polisi newydd ac i adlewyrchu'r *UCEA / USHA Leadership and Management of Health and Safety in Higher Education Institutions Guidance* diwygiedig, datblygwyd adran Cyfrifoldebau a Threfniadau'r Polisi Iechyd a Diogelwch, sydd wedi ei diwygio'n sylweddol.

Nod yr adran Cyfrifoldebau a Threfniadau ddiwygiedig yw rhoi mwy o eglurder ynghylch dyletswyddau a chyfrifoldebau'r Cyngor, Pwyllgorau, staff uwch allweddol, a rheoli iechyd a diogelwch yn ehangach yn y brifysgol.

Ystyriwyd adran Cyfrifoldebau a Threfniadau ddiwygiedig y Polisi Iechyd a Diogelwch ac wedi ystyriaeth briodol cytunwyd i argymell bod y Cyngor yn mabwysiadu'r adran hon.

I gynorthwyo i weithredu'r polisi newydd, trefnwyd 'Hyfforddiant Iechyd a Diogelwch' gwirfoddol i staff uwch, i'w helpu i ddeall eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau fel yr amlinellir hynny yn y Ddogfen Bolisi, yn y ddogfen Cyfrifoldebau a Threfniadau ac mewn deddfwriaeth.

492. SAFONAU POLISI IECHYD A DIOGELWCH

492 (a) Diogelwch Gyrwyr a Cherbydau (Diwygiad)

Mae'r polisi wedi cael ei ad-drefnu i roi mwy o eglurder i golegau, adrannau, staff a myfyrwyr ynghylch eu cyfrifoldebau i sicrhau bod cerbydau sy'n eiddo i'r brifysgol, neu a brydlesir neu a logir ganddi, ynghyd â cherbydau preifat, yn cael eu gweithredu a'u cynnal a'u cadw'n ddiogel.

Dyma'r diwygiadau allweddol:

a. Wrth gyflwyno pob cais ariannol mae'n rhaid i bob gyrrwr gadarnhau bod ganddynt hawl cyfreithiol i ddefnyddio eu cerbyd eu hunain i ddibenion busnes a bod ganddynt yswiriant priodol i wneud hynny. *Mae'r cyfrifoldeb ar y gyrrwr i sicrhau bod eu cerbyd mewn cyflwr diogel a bod ganddynt hawl cyfreithiol i yrru.*

b. Caiff cyfrifoldebau personol y gyrrwr eu nodi'n gliriach:

    i. Cadw golwg ar eu hiechyd a rhoi gwybod yn syth i'r Rheolwr Llinell ac /neu i'r Ymarferwr Iechyd Galwedigaethol (os oes angen) am unrhyw gyflyrau meddygol:

        o A all achosi salwch sydyn ac /neu effeithio ar olwg, arwain at golli ymwybyddiaeth neu'r gallu i ganolbwyntio a allai eu rhoi hwy ac eraill mewn perygl pan fyddant yn gyrru.

        o Cyflyrau meddygol y mae'n rhaid hysbysu'r DVLA amdanynt, e.e.

diabetes, anhwylderau'r galon ac anhwylderau niwrolegol, trafferthion cysgu, problemau gweld, alcohol a chyffuriau, materion iechyd meddwl.

ii. Peidio â gyrru dan ddylanwad drwg meddyginiaeth a roddir drwy bresgripsiwn neu feddyginiaeth arall.

iii. Peidio byth â gyrru dan ddylanwad alcohol.

Trafodwyd fersiwn ddiwygiedig y Polisi ac fe'i cymeradwywyd wedi ystyriaeth briodol.

492 (b) Defnyddio Cerbydau Awyr Di-griw (UAVs/Dronau)

Bydd y polisi newydd hwn yn galluogi'r brifysgol i ddefnyddio UAVs (gan staff a myfyrwyr wedi'u hyfforddi'n briodol) i ddibenion addysgu, ymchwil a gweithgareddau eraill yn y brifysgol.

Nodwyd y cefnogir y polisi gan Lawlyfr Gweithredu manwl sydd wedi'i anfon at y Civil Aviation Authority (CAA) fel rhan o ganiatâd y CAA i ddefnyddio UAVs. [1]

Ar hyn o bryd mae gan yr Ysgol Gwyddorau Eigion un aelod staff sydd â'r cymwysterau priodol i hedfan UAVs penodol fel y caniateir gan y CAA a'r Polisi.

Trafodwyd y Polisi newydd ac fe'i cymeradwywyd wedi ystyriaeth briodol.

493. ADRODDIAD GAN GRŴP TASG Y PWYLLGOR GWEITHREDU DIOGELWCH

Ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch, mae'r Grŵp Tasg wedi cyfarfod deirgwaith, a nodwyd y materion canlynol er gwybodaeth:

a. Polisi Iechyd a Diogelwch newydd: Cyfrifoldebau a Threfniadau: Mae'r grŵp tasg wedi treulio llawer o'i amser yn ystyried integreiddio a mabwysiadu'r Safonau Cenedlaethol dros Arweinyddiaeth a Rheolaeth Iechyd a Diogelwch mewn Addysg Uwch o fewn adran Cyfrifoldebau a Threfniadau Polisi Iechyd a Diogelwch y brifysgol ei hun.

b. Pecyn Archwilio a Blaenoriaeth Archwilio: I gyd-fynd â'r Polisi Iechyd a Diogelwch newydd cytunwyd ar becyn archwilio diwygiedig. Bydd y pecyn archwilio'n adlewyrchu'n uniongyrchol ofynion a nodir yn yr adran "Deoniaid Colegau a Phenaethiaid Gwasanaethau Canolog".

   Cytunwyd hefyd ar restr blaenoriaeth archwilio ddiwygiedig, gan adlewyrchu risgiau tebygol.

   Dylai archwilio colegau ac adrannau ailddechrau'n fuan yn y flwyddyn academaidd nesaf ac ar ôl i'r Cyngor gymeradwyo'r adran ddiwygiedig Cyfrifoldebau a Threfniadau o'r Polisi.

494. ADRODDIAD YSTADEGOL INTERIM IECHYD A DIOGELWCH

Oherwydd newidiadau yn y cyfnod adrodd o'r Calendr i'r Flwyddyn Academaidd, cyflwynir Adroddiad Blynyddol IaD i gyfarfod y Pwyllgor IaD yn Nhachwedd. Nodwyd yr eitemau allweddol canlynol o'r Adroddiad IaD Blynyddol Interim (wedi'i seilio ar flwyddyn galendr 2015):

i. Cafodd 52 o gyrsiau hyfforddi eu darparu neu eu hwyluso gan HSS, gyda dros 570 yn bresennol ynddynt.

ii. Yn 2015, nifer y damweiniau y rhoddwyd gwybod amdanynt i staff a myfyrwyr, a achosodd anafiadau o ganlyniad i'w gwaith neu astudiaethau yn y brifysgol oedd 67 (47 yn 2014).[2] O'r cyfanswm hwn, roedd 49 (36) o'r damweiniau yn ymwneud â staff a 18 (11) yn ymwneud â myfyrwyr.

iii. Yn ystod 2015 cafwyd 4 o ddamweiniau a digwyddiadau yr oedd rhaid hysbysu'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) amdanynt. Roedd pob un o'r rhain yn ymwneud â staff: bu dau'n absennol o'u gwaith am dros saith niwrnod ac arweiniodd dwy ddamwain at dorri esgyrn; 1 arddwrn ac 1 ysgwydd, a achoswyd gan lithro a baglu.

iv. Roedd y rhan fwyaf o'r 67 damwain a arweiniodd at anaf yn ymwneud â naill ai digwyddiad trin a thrafod (26 = 39%) neu roeddent o ganlyniad i lithro, baglu neu syrthio (19 = 28%) O'r 22 digwyddiad arall, roedd y rhan fwyaf yn ymwneud â phobl yn cael eu taro gan rywbeth oedd yn symud neu'n disgyn, neu fynd yn erbyn rhywbeth sefydlog / llonydd.

v. Cafwyd cyfanswm o 7 digwyddiad yn 2015 a achosodd i staff golli amser o'u gwaith. Dosbarthwyd pob digwyddiad colli amser fel naill ai damwain 'llithro, baglu neu syrthio' neu 'godi a chario'.

vi. Yn ystod 2014/15 cafwyd 123 achos o larymau tân yn seinio yn adeiladau'r brifysgol. Daeth Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru i 94 o'r achosion hynny (62 ymweliad â neuaddau p.15 437(a)-A39l432.55 leusyrthiot1 r yt1 .42 Tm 0 1 126.62 452.8